

## **Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig: Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth – Sesiwn graffu gyffredinol a sesiwn graffu ar y gyllideb**

---

**Mae Ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad wedi'u cyflwyno isod:**

### **Argymhelliad 1**

**Mae'r Pwyllgor yn argymhell fel a ganlyn:**

**Dylai Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 fod yn sail i holl benderfyniadau polisi Llywodraeth Cymru a dylai Llywodraeth Cymru ddangos sut mae'r Ddeddf wedi dylanwadu ar y penderfyniadau hynny. Rhaid i'r Ddeddf fod yn rhan ganolog o'r holl brosesau asesu effaith a gynhelir gan Lywodraeth Cymru. Dylai hyn gynnwys asesiad o effaith yn erbyn pob un o'r amcanion llesiant. Dylid nodi'r wybodaeth hon yn glir mewn unrhyw ddogfennaeth polisi neu brosiect perthnasol i sicrhau tryloywder a hwyluso craffu.**

### **Ymateb: Derbyn**

Mae'r saith Nod Llesiant a'r pum ffordd o weithio o dan yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy yn cynnig fframwaith clir i'r Llywodraeth wneud penderfyniadau o'i fewn ac mae angen i bob peth a wnawn fod yn seiliedig ar y rhain. Mae'r Ddeddf yn ein hybu i ddangos yn fanwl sut rydym yn datblygu a gweithredu polisi a deddfwriaeth, gan wneud yn glir sut rydym wedi mynd ati i roi'r ffyrdd o weithio sydd yn y Ddeddf ar waith er mwyn gwneud y cyfraniad gorau posibl ar draws y saith nod llesiant. Mae'n rhaid i'n prosesau penderfynu adlewyrchu gofynion y Ddeddf. Mae arfarnu effaith – effaith gadarnhaol a negyddol – yn rhan hanfodol o'r gwaith o ddatblygu polisi neu lunio cynlluniau cyflawni gyda'r effeithiau gorau.

Rydym yn datblygu dull newydd ar gyfer asesu effaith a fydd yn gwella ansawdd yr asesiadau o effaith a'r ffordd y cânt eu cofnodi. Bydd y dull newydd yn:

- cynnull yr ystod o ddyletswyddau asesu effaith mewn fframwaith cydlynol;
- lleihau cymhlethdod a dyblygu; ac
- integreiddio'r broses asesu effaith gyda chyfeiriad hanfodol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Er mwyn cyflawni'r integreiddio hwn byddwn yn cynnwys disgrifiad o'r ffordd y mae ein deddfwriaeth Cenedlaethau'r Dyfodol wedi'i chymhwyso, gan gynnwys y camau ymarferol a gymerwyd i integreiddio'r cais gyda'n hamcanion llesiant. Yn unol â bwriadau'r Ddeddf, bydd y disgrifiad hwn ar ffurf naratif er mwyn annog archwilio pa mor dda mae'n cydweddu, gan ystyried yr amcanion mewn ffordd gyfannol, ac nid ffordd unigol.

**Goblygiadau Ariannol** – Ni ragwelir y bydd unrhyw oblygiadau ariannol newydd yn codi. Fodd bynnag, os bydd, yna y bwriad fyddai cwrdd â'r costau hyn drwy ddarpariaeth bresennol y gyllideb.

## **Argymhelliad 2**

**Mae'r Pwyllgor yn argymhell fel a ganlyn:**

**Dylai Ysgrifennydd y Cabinet nodi'n fanwl sut mae arferion gwaith swyddogion yn ei adran wedi newid o ganlyniad i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan gynnwys yr hyfforddiant a'r cyfarwyddyd a roddwyd iddynt i gynorthwyo gyda datblygu polisi.**

### **Ymateb: Derbyn**

Mae'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi yn rhoi cefnogaeth uniongyrchol i strategaeth *Ffyniant i Bawb* ac i saith o'r 12 o amcanion Llesiant. Mae'r Cynllun yn cydnabod bod economi gynaliadwy a chynhwysol sy'n tyfu yn sylfaen hanfodol i Gymru fwy llewyrchus, fwy iach, gwydn a mwy cyfartal. Mae'r Cynllun yn cefnogi'r pum ffordd o weithio drwy roi cefnogaeth i ymagwedd Llywodraeth gyfan a thrwy feithrin cydweithrediad gyda sefydliadau allanol drwy'r Contract Economaidd.

Er bod gennyf gyfrifoldeb portffolio dros ddatblygu economaidd a thrafnidiaeth, mae'r Cynllun yn cydnabod bod gwireddu economi gynaliadwy a chynhwysol sy'n tyfu y tu hwnt i gwmpas unrhyw un portffolio gweinidogol a bod angen gweithredu ar y cyd ar draws y Llywodraeth a rhwng y Llywodraeth, rhanddeiliaid allweddol a phartneriaid cyflawni yn y sector cyhoeddus, y sector preifat, a'r trydydd sector.

Rydym wedi cynnal sesiynau hyfforddi ar gyfer y swyddogion yn fy adran a'r Llywodraeth ehangach yng Nghymru er mwyn amlinellu'r nodau a'r gofynion cyffredinol mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Yn ogystal, cynhaliwyd sesiynau wedi'u teilwra gyda meysydd unigol i gynorthwyo gyda'r gwaith o gymhwyso'r Ddeddf at weithgareddau ym mhob maes.

Mae canllawiau cyffredinol ar gael ar y rhyngwyd ac mae swyddogion yn fy Nhîm Gweithrediadau yn parhau i gynnig arweiniad a chymorth ar ymgorffori'r Ddeddf ar draws gweithgareddau ac ar roi tystiolaeth am hyn.

**Goblygiadau Ariannol** – Ni ragwelir y bydd unrhyw oblygiadau ariannol newydd yn codi. Fodd bynnag, os bydd, yna y bwriad fyddai cwrdd â'r costau hyn drwy ddarpariaeth bresennol y gyllideb.

### **Argymhelliad 3**

**Mae'r Pwyllgor yn argymhell fel a ganlyn:**

**Dylai Ysgrifennydd y Cabinet nodi'n fanwl, o fewn y 6 mis nesaf, sut y bydd yn ymateb i'r Polisi Adnoddau Naturiol, sut y caiff ei weithredu a sut y bydd yn effeithio ar y broses o lunio polisiau yn ei bortffolio.**

#### **Ymateb: Derbyn**

Rwyf wedi ymroi i gyflawni'r ymrwymadau a amlinellir yn y Polisi Adnoddau Naturiol sy'n gysylltiedig â'm portffolio.

Yn benodol, cyhoeddais y Cynllun Gweithredu ar yr Economi ar 12 Rhagfyr 2017. Mae'r Cynllun yn cefnogi'r Polisi Adnoddau Naturiol drwy hybu twf cynaliadwy gan gydnabod bod economi gynaliadwy a chynhwysol sy'n tyfu yn hanfodol i Gymru fwy llewyrchus, fwy iach, gwydn a mwy cyfartal. Mae'r Cynllun yn cefnogi busnesau i ddefnyddio adnoddau mewn ffordd fwy effeithlon ac yn annog datgarboneiddio.

Bydd ein Contract Economaidd newydd yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau sy'n ceisio cymorth gan Lywodraeth Cymru ymrwymo i dwf, gwaith teg, lleihau eu hól troed carbon a hybu iechyd, uwchsgilio a dysgu yn y gweithle. Tra bo'n Contract Economaidd yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau wneud y pethau cywir heddiw, mae ein Meysydd Gweithredu yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau ymateb i heriau yfory. Gyda'i gilydd byddant yn sicrhau bod y buddsoddiad a roddwn i fusnesau yn cyflawni ar gyfer y presennol a'r dyfodol.

Rwyf hefyd yn sefydlu Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol i Gymru – comisiwn cynghorol ac anstatudol – i roi cyngor strategol annibynnol ac arbenigol. Bydd y Comisiwn, a fydd wedi'i sefydlu'n llawn erbyn haf 2018, yn dadansoddi ac yn rhoi cyngor ar anghenion y seilwaith o ran yr economi a'r amgylchedd ac yn rhoi ystyriaeth i'r berthynas â'r seilwaith cymdeithasol.

Bydd cyngor y Comisiwn yn strategol ac yn edrych tua'r dyfodol, yn gyngor ar anghenion strategol hirdymor. Byddwn yn sicrhau bod y Comisiwn yn rhoi ystyriaeth i ddyletswyddau Gweinidogion Cymru o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru), gan gynnwys rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy a'r Ddyletswydd o ran Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau.

Ar ôl ei diweddarau, bydd y Strategaeth Drafnidiaeth – sydd i'w chyhoeddi ym mis Rhagfyr 2019 – ymysg pethau eraill, yn amlinellu'r camau gweithredu ar ein rhwydwaith trafndiaeth sy'n gwneud ein hecosystemau yn fwy gwydn ac yn gwrthdroi'r cwmp mewn bioamrywiaeth. Byddwn hefyd yn adolygu'n polisiau presennol mewn perthynas ag ecosystemau ac integreiddio datrysiadau seiliedig ar natur i'n buddsoddiadau mewn trafndiaeth. Byddwn yn ymgynghori ar y prif faterion a'r opsiynau ar gyfer y strategaeth yr hydref hwn.

Ar hyn o bryd, mae swyddogion yn paratoi cyngor ar Goridorau Gwyrdd i mi ei ystyried. Bydd hyn yn cwmpasu sut rydym yn datblygu cynigion i ddangos yr arferion gorau ar ein cefnffyrdd fel rhan o rwydwaith ecolegol gwydn, sy'n helpu i hyrwyddo Cymru fel gwlad sydd ar flaen y gad fel cyrchfan cynaliadwy o'r radd flaenaf i dwristiaid.

Bydd y cynigion yn cynnwys, er enghraifft, sut gallwn wella'r 'pyrth' i Gymru a'r 3 llwybr cenedlaethol sy'n cwmpasu Ffordd Cymru, drwy blannu coed yn strategol a mentrau eraill i wella ansawdd amgylcheddol rhwydwaith y ffyrdd.

Bydd y cyngor hefyd yn ystyried pa gamau rydym yn eu cymryd ar hyn o bryd, a ble gallai fod cyfleoedd ar ein rhwydwaith trafndiaeth i wneud ein hecosystemau'n fwy gwydn ac i wrthdroi'r cwmp mewn bioamrywiaeth, fel gwella cysylltedd ac amrywiaeth ecosystemau ar yr ystâd feddal; a ble mae cyfleoedd i ystyried cyflwyno gwasanaethau ecosystem ehangach, fel rheoli carbon, dŵr a llifogydd.

Bydd y cynigion hyn yn adeiladu ar y gwaith llwyddiannus sy'n mynd rhagddo eisoes neu y mae Trafnidiaeth wedi'i gyflawni, gan gynnwys:

- Wedi'i lansio yn 2014, mae ein menter 'Ymylon Ffyrdd ar gyfer Blodau Gwyllt' wedi cyflawni dros 50 o brosiectau i wella ymylon ffyrdd hyd yma. Mae hefyd wedi arwain at gynnal a chadw glaswelltiroedd sy'n gyforiog o flodau gwyllt yn well mewn safleoedd allweddol ar draws rhwydwaith y cefnffyrdd a'r traffyrdd.
- O dan ein menter 'Plannu Coed i Adfer', a lansiwyd yn 2014 hefyd, rydym wedi plannu oddeutu 20,000 o goed ifanc ar ein hystâd i ymladd dwy haint sylweddol sy'n bygwth coed yng Nghymru. Mae'r fenter hefyd wedi adfer coetiroedd ac wedi arwain at welliannau eraill i'r dirwedd ar hyd ein cefnffyrdd.
- Cwblhau Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth yr Ystâd Gefnffyrdd (2004 i 2014) yn llwyddiannus a gyflawnodd gamau cadarnhaol i gynefinoedd a rhywogaethau o blanhigion ac anifeiliaid ar rwydwaith cefnffyrdd Cymru. Yn erbyn yr ymrwymadau a bennwyd yn y cynllun, cyflawnwyd 90% yn llwyddiannus.
- Cyflwyno rhaglen barhaus o reoli rhywogaethau estron goresgynnol. Yn canolbwyntio i gychwyn ar reoli clymog Japan ar yr ystâd feddal, mae'r rhaglen bellach wedi'i hymestyn i fynd i'r afael â rhywogaethau estron goresgynnol eraill sy'n bygwth ein rhywogaethau cynhenid o blanhigion ac anifeiliaid.

Bydd symud tuag at drafndiaeth carbon is hefyd yn un o brif agweddau'r Strategaeth Drafndiaeth ar ôl ei diweddaru, er mwyn cyrraedd ein targedau datgarboneiddio a hefyd i leihau'r nifer cynyddol o Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer sydd â chysylltiad cryf ag allyriadau cysylltiedig â thrafnidiaeth.

Rwy'n gweithio'n agos gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig a gyda Gweinidog yr Amgylchedd ar Gynllun Aer Glân i Gymru

(y bwriedir ei gyhoeddi yn hwyrach eleni) ac ar yr ymgynghoriad sydd ar droed (ar gyfer diwedd Ebrill) ar y Fframwaith Parth Aer Glân.

#### **Goblygiadau Ariannol –**

Ni ragwelir y bydd unrhyw oblygiadau ariannol newydd yn codi. Fodd bynnag, os bydd, yna y bwriad fyddai cwrdd â'r costau hyn drwy ddarpariaeth bresennol y gyllideb.

#### **Argymhelliad 4**

**Mae'r Pwyllgor yn argymhell fel a ganlyn:**

**Dylai Ysgrifennydd y Cabinet adrodd i'r Pwyllgor hwn o fewn y 6 mis nesaf gan nodi'n fanwl sut y bydd yr allyriadau carbon sy'n deillio o gynlluniau gwella priffyrdd yn gyffredinol, a'r A487, yr A470 a ffordd liniaru'r M4 yn arbennig, yn cael eu monitro yn y tymor canol i'r tymor hir ar ôl iddynt gael eu comisiynu.**

#### **Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Ers cyhoeddi'r fersiwn terfynol o WelTAG wedi'i ddiweddarau ym mis Rhagfyr 2017, mae Llywodraeth Cymru wedi adolygu'i dull ar gyfer monitro'r ymrwymadau a wneir mewn perthynas â pherfformiad cynlluniau seilwaith mawr ar ôl agor.

Bydd y dull sy'n cael ei ddatblygu yn gwella cwmpas y gwaith monitro a gwerthuso a wneir ar hyn o bryd ar ôl agor. Bydd y cwmpas newydd hwn yn sicrhau nid yn unig bod Carbon yn cael ei ystyried, ond bod perfformiad y cynllun yn erbyn yr amcanion gwreiddiol yn cael ei ystyried a'i werthuso hefyd; a bod yr un broses yn cael ei chynnal ar gyfer yr ymrwymadau a wneir yn y dogfennau cyhoeddus a lywiodd benderfyniad Ysgrifennydd y Cabinet.

Mewn perthynas â Charbon, mae'n debygol y bydd hyn yn golygu ailgynnal yr asesiad Ansawdd Aer ar gyfer Carbon Deuocsid a wnaed ar gyfer y cynllun pan roedd y dyluniadau'n cael eu penderfynu'n derfynol, ble bu cynnydd mewn traffig yn erbyn senario "dim cynllun/gwneud dim"; a chymharu yn erbyn unrhyw amcanion cynllunio trafndiaeth perthnasol sydd wedi codi o'r broses WelTAG.

**Goblygiadau Ariannol –** Ni ragwelir y bydd unrhyw oblygiadau ariannol newydd yn codi. Fodd bynnag, os bydd, yna y bwriad fyddai cwrdd â'r costau hyn drwy ddarpariaeth bresennol y gyllideb.

#### **Argymhelliad 5**

**Mae'r Pwyllgor yn argymhell fel a ganlyn:**

**Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi ei hymateb i'r cyngor diweddaraf gan Bwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd cyn gynted ag y bo**

**modd a dylai roi gwybod i'r Pwyllgor ar unwaith am y dyddiad y bydd yn ymateb. Cyn gynted ag y bo modd ar ôl cyhoeddi ymateb Llywodraeth Cymru, dylai Ysgrifennydd y Cabinet gyhoeddi asesiad o effaith pob argymhelliad a dderbynnir ar ei bortffolio. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet nodi dyddiad ar gyfer cwblhau'r gwaith hwn.**

### **Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ymateb i gyngor Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd (PDUNH) mewn perthynas â phennu targedau a chyllidebau carbon interim cyn toriad yr haf.

Mewn perthynas â'r argymhellion gan PDUNH o ran y camau y dylid eu cymryd, bydd angen mwy o amser i ystyried y rhain. Er bod y Pwyllgor yn tanlinellu, yn gywir, bod Sectorau o fewn fy mhortffolio yn gyfrifol am ganran uchel o'r allyriadau yng Nghymru, bydd y camau y mae eu hangen i leihau'r allyriadau o'r ffynonellau hyn yn gofyn gweithredu ar y cyd ar draws portffolios Gweinidogion.

Mae rhaglen draws-lywodraethol helaeth wedi'i rhoi mewn lle i hybu'r agenda hon. Rydym hefyd yn lansio ymgynghoriad cyhoeddus yr haf hwn i geisio barn rhanddeiliaid ar y mater pwysig hwn.

Bydd Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gweinidog ar Ddatgarboneiddio yn adolygu'r cyngor ochr yn ochr â thystiolaeth ehangach ac ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn cyhoeddi ymateb ar y cyd fel rhan o'n Cynllun Cyflenwi Carbon Isel ym mis Mawrth 2019.

**Goblygiadau Ariannol** – Ni ragwelir y bydd unrhyw oblygiadau ariannol newydd yn codi. Fodd bynnag, os bydd, yna y bwriad fyddai cwrdd â'r costau hyn drwy ddarpariaeth bresennol y gyllideb.

### **Argymhelliad 6**

**Mae'r Pwyllgor yn argymhell fel a ganlyn:**

**Heb fod yn hwyrach na 6 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru: roi manylion i'r Pwyllgor am yr hyn y mae'n credu y dylai fod yn ofynion system fyddai'n cymryd lle System Masnachu Allyriadau yr UE; ac adrodd i'r Pwyllgor hwn ar gynnydd trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ynghylch system newydd bosibl i gymryd lle y cynllun hwn.**

### **Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i weithio gyda Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig eraill i sefydlu fframweithiau cyffredin ar draws y DU mewn rhai meysydd sy'n cael eu llywodraethu gan gyfraith yr UE ar hyn o bryd.

Mae polisi i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr gan weithfeydd sydd ar hyn o bryd yn cymryd rhan yn System Masnachu Allyriadau yr EU yn un o'r meysydd polisi hyn.

Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig yn gweithio gyda'r cynrychiolwyr cyfatebol yn y Gweinyddiaethau Datganoledig eraill a gyda Llywodraeth y DU i bennu a oes angen fframwaith neu a fyddai fframwaith yn ddymunol. Bydd yn rhoi diweddariad ar y trafodaethau i'r Pwyllgor o fewn 6 mis.

**Goblygiadau Ariannol** – Ni ragwelir y bydd unrhyw oblygiadau ariannol newydd yn codi. Fodd bynnag, os bydd, yna y bwriad fyddai cwrdd â'r costau hyn drwy ddarpariaeth bresennol y gyllideb.

### **Argymhelliad 7**

**Mae'r Pwyllgor yn argymhell fel a ganlyn:**

**Dylai Ysgrifennydd y Cabinet nodi'n glir yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a datganiadau polisi thematig cysylltiedig sut mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 wedi effeithio'n uniongyrchol ar benderfyniadau polisi.**

### **Ymateb: Derbyn**

Mae ein cynigion cyllideb wedi parhau i edrych ar sut rydym yn ymgorffori'r pum ffordd o weithio i'n helpu i gael yr effaith gorau posibl, i lywio cynlluniau sy'n cefnogi Symud Cymru Ymlaen ac sy'n dilyn dull integredig ar gyfer ystyried yr effeithiau ar grwpiau a warchodir, i gefnogi canolbwyntio ar y nodau cenedlaethol a rannwn ac i sicrhau economi gynaliadwy a chenedl gynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw'r brif egwyddor drefniadol yn ein proses gynllunio, ac mae'n sicrhau bod ein penderfyniadau'n rhoi ystyriaeth i'r amcanion a'r effeithiau economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol. O wneud hynny, rydym yn dilyn dull sy'n ymgorffori cyfranogiad, cydweithredu, integreiddio, buddsoddi hirdymor ac atal yn ein polisiau a'r gwaith o'u cyflwyno.

Mae angen i gynigion am unrhyw weithgarwch busnes roi tystiolaeth eu bod yn gydnaws â chyflawni un neu fwy o'r saith Nod Llesiant yn ogystal ag un neu fwy o amcanion Llesiant Llywodraeth Cymru.

Yn ogystal, mae angen i feysydd cyflawni ddangos bod pum egwyddor gweithio'n gynaliadwy wedi'u gweithredu lle bo modd wrth lunio achosion busnes. Wrth gytuno ar ddyraniadau gyda meysydd busnes, rydym yn asesu effeithiau'r elfennau hyn ynghyd â ffactorau eraill i sicrhau y gwneir penderfyniadau ynghylch cyllidebau sy'n cefnogi'r achosion busnes mwyaf priodol.

Bydd **Strategaeth Drafnidiaeth Cymru** ar ôl ei hadnewyddu yn datblygu polisiau a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad teithio ac yn lleihau'r effaith negyddol

a gaiff traffig ar ein cymunedau a'n hansawdd bywyd. Bydd y Strategaeth yn adlewyrchu'r nodau a'r egwyddorion Llesiant yn ogystal â chyflwyno'n strategaeth genedlaethol "Ffyniant i Bawb".

Rydym hefyd wedi datblygu a diwygio'r Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru, neu '**WelTAG**' (Welsh Transport Appraisal Guidance), a lansiodd ym mis Rhagfyr, gan weithio gyda Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i sicrhau arweiniad gwell sy'n cydweddu'n well gyda'r 5 Ffordd o Weithio i fodloni amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

**Goblygiadau Ariannol** – Ni ragwelir y bydd unrhyw oblygiadau ariannol newydd yn codi. Fodd bynnag, os bydd, yna y bwriad fyddai cwrdd â'r costau hyn drwy ddarpariaeth bresennol y gyllideb.

### **Argymhelliad 8**

**Mae'r Pwyllgor yn argymhell fel a ganlyn:**

**Dylai Ysgrifennydd y Cabinet adrodd i'r Pwyllgor hwn ynghylch sut mae Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) 17 wedi'i gymhwyso i'r cynigion ar gyfer prosiectau seilwaith mawr, gan gynnwys ffordd liniaru'r M4.**

#### **Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Mae safbwynt Llywodraeth Cymru ar y mater hwn wedi'i gyflwyno mewn tystiolaeth a roddwyd gerbron yr Ymholiad Cyhoeddus i Brosiect Coridor yr M4 o amgylch Casnewydd. Caiff arweiniad 2017 ei gymhwyso mewn ffordd debyg ar draws prosiectau seilwaith mawr eraill.

Mae Prosiect yr M4 yn ganlyniad proses gynhwysfawr o arfarnu cynllunio trafndiaeth a gychwynwyd ar ddechrau'r 1990au. Arweiniodd hyn at ddewis y Cynllun pan fabwysiadodd Gweinidogion Cymru y Cynllun ar gyfer Coridor yr M4 o amgylch Casnewydd ym mis Gorffennaf 2014. Cyhoeddwyd yr Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) yn gyntaf yn 2008, ac ymatebodd gwaith datblygu'r M4 i'r arweiniad hwnnw gyda chyfres o arfarniadau WelTAG a gyhoeddwyd hyd at fis Gorffennaf 2014, gan roi ystyriaeth i arferion gorau WebTAG ar gyfer arfarniadau trafndiaeth. Lluniwyd Cynllun Busnes ar gyfer y Cynllun yn unol â'r arferion gorau ar y pryd, gan fabwysiadu'r cyngor yn Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM gan ddefnyddio'r dull pum astudiaeth achos.

Gan ymdrin yn gyntaf â'r trefniadau trosiannol, mae canllawiau atodol WelTAG 2017 yn esbonio y dylai cynlluniau sy'n cael eu gweithredu trwy WelTAG 2008 symud i WelTAG 2017 yn ystod cam priodol yn eu datblygiad. Mae'n cynnwys tabl yn dangos sut mae'r camau yn WelTAG 2008 yn cyfateb i'r 5 cam yn WelTAG 2017, a ddangosir isod.



	<b>WeITAG 2008</b>	<b>WeITAG 2017</b>
Nodi problemau, pennu amcanion, llunio a phrofi rhestr hir o opsiynau	Cam Cynllunio	Cam Un
Asesu rhestr fer o opsiynau i nodi opsiwn a ffefrir / pecyn o fesurau	Cam Un	Cam Dau
Arfarniad manwl o'r opsiwn a ffefrir / pecyn o fesurau	Cam Dau	Cam Tri
Gweithredu ateb a ffefrir / pecyn o fesurau	Ar ôl Arfarnu	Cam Pedwar
Monitro a gwerthuso	Ar ôl Arfarnu	Cam Pump

Nid oes yr un cam naill ai yn WeITAG 2008 neu yn WeITAG 2017 sy'n cyfateb i'r ymholiad cyhoeddus i Orchmynion drafft a gyhoeddwyd, sef y cam y mae'r Cynllun cyhoeddedig ar gyfer Coridor yr M4 o amgylch Casnewydd wedi'i gyrraedd. Mae'r Cynllun cyhoeddedig wedi cwblhau Cam 2 WeITAG 2008 a'r Cam 3 WeITAG 2017 sy'n cyfateb iddo, ar ôl datblygu y tu hwnt i'r arfarniad manwl o'r opsiwn a ffefrir gyda chyhoeddi Gorchmynion statudol drafft.

Mae Cam 3 WeITAG 2017 yn cael ei ddisgrifio fel y Cynllun Busnes Llawn a'i fwrriad yw "gwneud asesiad llawn a manwl o'r opsiwn a ffefrir i lywio penderfyniadau ynglŷn â ph'un a ddylid bwrw ymlaen i'w weithredu neu beidio". Felly, mae Cam 3 wedi'i gwblhau am fod asesiad llawn a manwl o'r opsiwn a ffefrir wedi'i gyflawni, am fod Achos Busnes Llawn wedi'i lunio, ac am fod penderfyniad wedi'i wneud gan Weinidogion Cymru i fwrw ymlaen drwy'r gweithdrefnau statudol sy'n ofynnol er mwyn gweithredu'r Cynllun cyhoeddedig.

Felly, byddai'r Cynllun, pe byddai Gweinidogion Cymru'n ei gadarnhau, yn symud ymlaen o dan WeITAG 2008 i'r Cam Ar ôl Arfarnu, gweithredu'r ateb a ffefrir, sef Cam 4 yn WeITAG 2017. Mae WeITAG 2017, ar dudalen 17, yn crynhoi Cam 4 fel a ganlyn: cyflawni'r opsiwn a ffefrir; cofnodi manylion cyd-destun y gwaith cyflawni; monitro'r broses gyflawni a'i heffeithiau. Os caiff y Gorchmynion eu cymeradwyo ac os caiff y Cynllun ei weithredu, bydd felly yn symud ymlaen i Gam 4 WeITAG 2017 ac yna i Gam 5, sef monitro'r effeithiau a chymhwysu'r gwersi a ddysgwyd.

Gan droi at ystyried yr egwyddor datblygu cynaliadwy a'r nodau llesiant a bennir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, yng nghyd-destun WeITAG 2008 a 2017, er nad oedd Deddf LICD yn bodoli pan gyhoeddwyd WeITAG 2008, mae datblygu cynaliadwy wedi'i ymgorffori yng ngweithredoedd Llywodraethau Cymru ers datganoli. Roedd arferion gwaith Llywodraeth Cymru wedi esblygu i adlewyrchu'i hymrwymiad i ddatblygu mewn ffordd gynaliadwy. Pwysleisiodd paragraff 2.4.4 WeITAG 2008 fod dyletswydd statudol ar Lywodraeth Cynulliad Cymru o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i hyrwyddo datblygu cynaliadwy a'i bod wedi ymrwymo i wneud penderfyniadau a oedd yn cyd-fynd â'r nod hwn.

Felly, dewiswyd y Cynllun strategol ar gyfer yr M4 o amgylch Casnewydd gan ddefnyddio, ymysg pethau eraill, methodoleg WeITAG i arfarnu opsiynau amgen yn

erbyn amcanion a meini prawf cynaliadwyedd. Aseswyd mai'r Cynllun hwn oedd yn cyd-fynd orau â Meysydd Effaith Cymru a oedd yn cyfateb i dair elfen polisi datblygu cynaliadwy ar y pryd (yr economi, cymdeithas a'r amgylchedd) a'r amcanion cynllunio trafndiaeth.

Roedd y gwahanol agweddau sy'n cwmpasu methodoleg arfarnu newydd WelTAG 2017 hefyd yn sail i'r broses asesu a arweiniodd at ddewis y Cynllun ar gyfer yr M4 o amgylch Casnewydd a'r Cynllun cyhoeddedig. Er nad oedd yr egwyddor datblygu cynaliadwy a nodau llesiant Deddf LICD yn rhan benodol o'r broses (ac nid oedd yn bosibl iddynt fod oherwydd yr amseru), roedd yr asesiad yn seiliedig ar yr effeithiau ar bob elfen o bolisi datblygu cynaliadwy ar y pryd. Yn ogystal, roedd arfarniadau WelTAG 2008 yn dilyn arferion gorau WebTAG ac roedd yr Achos Busnes yn dilyn canllawiau Trysorlys EM a'r Model Pum Achos, y mae WelTAG 2017 wedi'i seilio arno bellach.

Esboniodd Adroddiad Datblygu Cynaliadwy (DC) 2016 Prosiect yr M4 sut byddai'r Cynllun cyhoeddedig yn cyfrannu at nodau llesiant Deddf LICD. Er bod hyn yn rhan o'r asesiad o opsiynau yng Ngham 2 WelTAG 2017, mae'n dal yn wir fod Llywodraeth Cymru, wrth ddewis y Cynllun ar gyfer yr M4 a'r Cynllun cyhoeddedig, wedi arfarnu'r gwahanol opsiynau yn unol â'r polisi datblygu cynaliadwy, Meysydd Effaith Cymru a'r arferion gorau ar gyfer arfarniadau trafndiaeth ar y pryd.

Er i Adroddiad DC 2016 gael ei lunio ar ôl i Weinidogion Cymru ddewis yr opsiwn roeddent yn ei ffafrio, roedd hyn yn ganlyniad anochel i amseru'r broses arfarnu a phasio Deddf LICD. Nid yw'n golygu bod diffyg o unrhyw fath yn y broses gyffredinol o ddatblygu a mabwysiadu'r Cynllun cyhoeddedig, am ei bod wedi dilyn y polisiau perthnasol, y canllawiau arferion gorau a'r gofynion cyfreithiol ar y pryd.

Fframwaith yw WelTAG 2017 "ar gyfer ystyried newidiadau arfaethedig i'r system drafnidiaeth". Mae'n broses ar gyfer gwerthuso'r opsiynau ar gyfer ymyriadau i gyflawni system drafnidiaeth fwy cynaliadwy i Gymru. Y mae'n "feganwaith ar gyfer rhoi'r holl wybodaeth sydd ei hangen i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau, er mwyn iddynt wneud pob penderfyniad ynglŷn â chyllid ar sail rheswm ac mewn ffordd y gellir ei harchwilio". Nid yw'n disodli gwneud penderfyniadau, ond mae'n broses o gasglu gwybodaeth ac asesu effaith opsiynau. Roedd y broses arfarnu a oedd yn seiliedig ar WelTAG 2008 a arweiniodd at fabwysiadu'r Cynllun ar gyfer coridor yr M4 o amgylch Casnewydd ym mis Gorffennaf 2014 yn dilyn yr un egwyddorion hyn.

Mae'r broses o asesu effeithiau opsiynau, o anghenraid, yn gofyn dyfarnu. Mae Adroddiad Asesu Effeithiau WelTAG, sy'n rhan annatod o broses WelTAG 2017, yn cyflwyno'r gwaith dadansoddi y mae pob cam yn seiliedig arno ac a ddylai gynnwys "manylyon y dyfarniadau a wnaed a'r tybiaethau y tu ôl i'r asesiadau a ddarperir yn adroddiad y cam hwnnw". Mae canllawiau WelTAG 2017 yn cydnabod yn benodol bod dyfarniadau o'r fath yn golygu asesiad o'r effeithiau cadarnhaol a negyddol ar lesiant; y gallai'r effeithiau posibl fod o les i rai ond yn negyddol i eraill; ac y dylai'r adroddiadau ar Gamau 1, 2 a 3 WelTAG gyflwyno crynodeb o'r

effeithiau a'r potensial i wireddu effeithiau cadarnhaol ac i liniaru effeithiau negyddol.

Mae'r gydnabyddiaeth hon o'r angen i ddyfarnu a gwerthuso effeithiau cadarnhaol a negyddol yn berthnasol. Byddai'n anymarferol osgoi unrhyw ddatblygiad a fyddai'n peri niwed i un agwedd ar lesiant heb asesu'r niwed hwnnw yn erbyn gwelliannau i agweddau eraill ar lesiant. Rwy'n defnyddio, fel enghraifft, y budd o ddarparu tai newydd i ddiwallu anghenion yn sgil twf yn y boblogaeth yn erbyn yr effeithiau gweledol, effeithiau o ran tirwedd ac effeithiau eraill mewn perthynas ag adeiladu ar safle maes glas. Er mwyn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â datblygiad o'r fath, byddai angen penderfyniad cytbwys sy'n cymharu'r effaith debygol â'r manteision o ran llesiant.

Mae cefnogaeth i'r dull hwn yn WeITAG 2017, sy'n gofyn asesu effeithiau cadarnhaol a negyddol opsiynau ynghyd â'r potensial i liniaru'r effeithiau negyddol. Nid yw'n awgrymu yn unman y dylid diystyru unrhyw opsiynau sy'n debygol o arwain at effeithiau negyddol mewn perthynas ag un agwedd ar lesiant; mater i'r sawl sy'n penderfynu ddyfarnu arno yw hyn.

**Goblygiadau Ariannol** – Ni ragwelir y bydd unrhyw oblygiadau ariannol newydd yn codi. Fodd bynnag, os bydd, yna y bwriad fyddai cwrdd â'r costau hyn drwy ddarpariaeth bresennol y gyllideb.

### **Argymhelliad 9**

**Mae'r Pwyllgor yn argymhell fel a ganlyn:**

**Dylai Ysgrifennydd y Cabinet adrodd i'r Pwyllgor hwn o fewn y 6 mis nesaf ynghylch sut y bydd yn asesu cynaliadwyedd ymyriadau penodol sy'n ymwneud â thrafnidiaeth a sut y bydd hyn yn cael ei amlygu yn y dyfodol mewn dogfennau polisi a phrosiect.**

### **Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Mae'r Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru 2017 yn cyflwyno'r gofyniad i fesur a monitro effeithiau ein buddsoddiadau. Mae hyn yn caniatáu i ni werthuso, ar sail prosiectau unigol, a yw'r buddsoddiadau a wneir yn cyflawni'r buddion a fwriedir. Ble nad ydynt, bydd y polisiâu sy'n rhan o Strategaeth Drafnidiaeth newydd Cymru yn cael eu hadolygu er mwyn pennu a ydynt addas at eu diben neu a oes angen i ni newid y ffordd y caiff y prosiect ei gyflwyno.

Bydd y trefniant monitro arfaethedig hwn yn sicrhau bod ein buddsoddiadau trafndiaeth yn cyflawni'r nodau Llesiant.

Mae WeITAG yn ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy drwy'r pum ffordd o weithio, a dylid dilyn y rhain ym mhob cam. Y mae'n fframwaith ar gyfer meddwl a

chaiff defnyddwyr eu tywys i ystyried effeithiau tymor byr a thymor hir opsiynau, yn ogystal ag opsiynau i atal problemau rhag gwaethygu neu rag codi yn y lle cyntaf.

Mae'r nodau a'r amcanion Llesiant yn rhan allweddol o'r achos strategol a'r achos trafndiaeth ar gyfer cynllun. Wrth ddatblygu'r achos strategol, dylai'r nodau a'r amcanion Llesiant lywio amcanion yr ymyriad.

Yn ystod yr achos trafndiaeth, dylid cynnal arfarniad llesiant ar bob opsiwn. Bydd hwn yn mesur effaith debygol pob opsiwn ar y nodau llesiant.

Mae integreiddio yn rhan hanfodol o'r broses WelTAG i sicrhau bod defnyddwyr yn ystyried effaith cynigion ar amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill, a hefyd sut dylid rhoi ystyriaeth i agendau polisi eraill.

Mae cydweithredu hefyd yn rhan hanfodol o'r broses er mwyn sicrhau na chaiff ymyriadau trafndiaeth eu datblygu ar wahân. Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid ac annog eu cyfranogiad yn bwysig drwy gydol arfarniad WelTAG. Mae'n ofynnol i ddefnyddwyr gynnwys pobl sydd am gyflawni'r nodau llesiant a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu'r amrywiaeth yn y boblogaeth.

Rydym wedi gweithio'n agos â swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar Iunio'r arweiniad a bydd swyddfa'r Comisiynydd yn cefnogi'r gwaith sy'n mynd rhagddo i ddatblygu dealltwriaeth o'r pecyn, a'r ffordd y caiff y pecyn ei ddefnyddio, ymysg ymarferwyr a phartion sydd â diddordeb, wrth i ni feithrin y gymuned ymarfer a dysgu drwy gymhwyso'n ymarferol a thrwy arferion gorau.

Mae'n ofynnol i'r holl brosiectau trafndiaeth sydd angen cyllid gan Lywodraeth Cymru gydymffurfio ag arweiniad WelTAG. Mae'r Arweiniad yn cyflwyno'r gofyniad i fesur a monitro effeithiau ein buddsoddiadau a sicrhau eu bod yn gydnaws â'r dangosyddion sydd wedi'u cyflwyno yn Strategaeth Drafndiaeth Cymru ac amcanion penodol unrhyw brosiect neu gynllun.

Mae hyn yn caniatáu i ni werthuso, ar sail prosiectau unigol, a yw'r buddsoddiadau a wneir yn cyflawni'r buddion a fwriedir a'r canlyniadau a nodir. Mae hyn yn caniatáu i ni adolygu'r gwaith o gyflwyno rhaglen a datblygu'r ymyriadau sydd yn y sefyllfa orau i wireddu canlyniadau penodol.

Wrth ddatblygu Strategaeth Drafndiaeth newydd i Gymru byddwn yn adolygu'r sylfaen honno o dystiolaeth i sicrhau bod y polisiâu sy'n rhan o Strategaeth Drafndiaeth newydd Cymru yn rhai cadarn ac yn addas i'w diben.

Bydd y gyfres o arfau dadansoddi a modelu yr ydym yn ei datblygu, yn ogystal â gwybodaeth gan eraill, fel Trafnidiaeth Cymru a Chanolfan Asesu a Monitro Ansawdd Aer Cenedlaethol Cymru yn caniatáu i ni ddylunio ymyriadau sy'n cyflawni'n nodau Llesiant.

**Goblygiadau Ariannol** – Ni ragwelir y bydd unrhyw oblygiadau ariannol newydd yn codi. Fodd bynnag, os bydd, yna y bwriad fyddai cwrdd â'r costau hyn drwy ddarpariaeth bresennol y gyllideb.

### **Argymhelliad 10**

**Mae'r Pwyllgor yn argymhell fel a ganlyn:**

**Dylai Ysgrifennydd y Cabinet adrodd i'r Pwyllgor hwn o fewn y 6 mis nesaf ar gynnydd yn ymwneud â dyrannu arian ar gyfer gosod manau gwefru trydanol.**

#### **Ymateb: Derbyn**

Byddwn yn falch o roi diweddariad i'r Pwyllgor ar y cynnydd. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol a chyrrff eraill i ddatblygu model fframwaith ar gyfer creu rhwydwaith cyhoeddus cenedlaethol o fannau gwefru trydanol, sy'n defnyddio'r £2 filiwn o gyllid cyhoeddus a roddwyd i'r diben hwn mewn ffordd sy'n sicrhau'r canlyniadau gorau posibl drwy ddenu buddsoddiadau cynaliadwy o du'r sector preifat.

**Goblygiadau Ariannol** – Ni ragwelir y bydd unrhyw oblygiadau ariannol newydd yn codi. Fodd bynnag, os bydd, yna y bwriad fyddai cwrdd â'r costau hyn drwy ddarpariaeth bresennol y gyllideb.

### **Argymhelliad 11**

**Mae'r Pwyllgor yn argymhell fel a ganlyn:**

**Dylai Llywodraeth Cymru adrodd i'r Pwyllgor hwn o fewn y 6 mis nesaf ar y cynnydd o ran datblygu rhaglen waith draws-Lywodraethol i wella ansawdd aer yng Nghymru.**

#### **Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Mae'r Rhaglen Aer Glân i Gymru yn cael ei sefydlu y gwanwyn hwn i ystyried tystiolaeth a datblygu a gweithredu'r camau sy'n ofynnol ar draws holl Adrannau'r Llywodraeth a'r holl sectorau i sicrhau Aer Glân i Gymru.

Bwriad y Rhaglen yw lleihau'r baich y mae ansawdd aer gwael yn ei roi ar iechyd pobl ac ar yr amgylchedd naturiol ac, yn y tymor byrrach, bodloni'r gofyniad i

gydymffurfio â goblygiadau deddfwriaethol Ewropeaidd a domestig o ran ansawdd aer.

Ar ôl cytuno'n ffurfiol ar gylch gorchwyl y Rhaglen, gellir rhannu hyn ac agweddau cyflawnadwy allweddol sy'n gysylltiedig â'r rhaglen gyda'r Pwyllgor yn ogystal ag amserlenni cysylltiedig.

**Goblygiadau Ariannol** – Ni ragwelir y bydd unrhyw oblygiadau ariannol newydd yn codi. Fodd bynnag, os bydd, yna y bwriad fyddai cwrdd â'r costau hyn drwy ddarpariaeth bresennol y gyllideb.

### **Argymhelliad 12**

**Mae'r Pwyllgor yn argymhell fel a ganlyn:**

**Dylai Ysgrifennydd y Cabinet adrodd i'r Pwyllgor hwn o fewn y 6 mis nesaf ar y camau y mae'n eu cymryd i wella ansawdd aer.**

**Ymateb: Derbyn**

Byddwn y falch o roi diweddariad i'r Pwyllgor yn y chwe mis nesaf ar y camau y mae fy mhortffolio yn eu cymryd i wella ansawdd aer.

**Goblygiadau Ariannol** – Ni ragwelir y bydd unrhyw oblygiadau ariannol newydd yn codi. Fodd bynnag, os bydd, yna y bwriad fyddai cwrdd â'r costau hyn drwy ddarpariaeth bresennol y gyllideb.

### **Argymhelliad 13**

**Mae'r Pwyllgor yn argymhell fel a ganlyn:**

**Dylai Strategaeth Drafnidiaeth Cymru gynnwys targedau a dulliau i fonitro ansawdd aer yng Nghymru, gan gyfeirio'n benodol at leoliadau megis ysgolion ac ysbytai.**

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Bydd Strategaeth Drafnidiaeth Cymru ar ôl ei hadnewyddu yn datblygu polisïau a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad teithio ac yn lleihau'r effaith negyddol a gaiff traffig ar ein cymunedau a'n ansawdd bywyd, gan gynnwys ansawdd aer. Bydd y Strategaeth yn adlewyrchu'r nodau a'r egwyddorion Llesiant yn ogystal â chyflwyno'n strategaeth genedlaethol "Ffyniant i Bawb".

**Goblygiadau Ariannol** – Ni ragwelir y bydd unrhyw oblygiadau ariannol newydd yn codi. Fodd bynnag, os bydd, yna y bwriad fyddai cwrdd â'r costau hyn drwy ddarpariaeth bresennol y gyllideb.

## **Argymhelliad 14**

**Mae'r Pwyllgor yn argymhell fel a ganlyn:**

**Dylai Ysgrifennydd y Cabinet adrodd i'r Pwyllgor hwn o fewn 6 mis ar gynnydd yn ymwneud â'r cynllun gweithredu ar yr economi, gan gynnwys rhagor o wybodaeth ynghylch sut y bydd ymrwymadau datgarboneiddio yn cael eu defnyddio yn y broses asesu ar gyfer cymorth ariannol.**

### **Ymateb: Derbyn**

Byddwn yn falch o roi diweddariad i'r Pwyllgor yn y chwe mis nesaf ar y cynllun gweithredu ar yr economi, gan gynnwys rhagor o wybodaeth ynghylch sut y bydd ymrwymadau datgarboneiddio yn cael eu defnyddio yn y broses asesu ar gyfer cymorth ariannol.

**Goblygiadau Ariannol** – Ni ragwelir y bydd unrhyw oblygiadau ariannol newydd yn codi. Fodd bynnag, os bydd, yna y bwriad fyddai cwrdd â'r costau hyn drwy ddarpariaeth bresennol y gyllideb.